

Papur Tystiolaeth Ysgrifenedig

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Ymchwiliad i Gomisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

Diben

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol 'Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn' (Rhagfyr 2021), ac am y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Papur Gwyn ar Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth a gyhoeddwyd yn destun ymgynghoriad ym mis Ionawr 2021.

1. Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion Archwilio Cymru

Argymhelliad A1

- 1.1. Yn ôl argymhelliad A1, dylai Llywodraeth Cymru ystyried beth y mae canfyddiadau gwaith Archwilio Cymru yn y Gogledd yn ei olygu ar gyfer y diwygiadau polisiâu arfaethedig, ac a fydd y gwaith diwygio hwn yn mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol y materion a godwyd.
- 1.2. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar gomisiynu cartrefi gofal yn y Gogledd ac ar oblygiadau y gwaith hwnnw yn genedlaethol. Rydym yn cydnabod gwerth y gwaith hwn o safbwynt llywio ein gwaith diwygio polisi arfaethedig, ac yn arbennig o ran cyflawni ein rhaglenni gwaith cenedlaethol a rhanbarthol o dan y Rhaglen Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth. Byddwn yn sicrhau bod canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiadau hyn yn cael eu bwydo i'r Grwpiau Technegol a'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i gefnogi'r rhaglen hon. Er enghraifft, mae Cylch Gorchwyl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddarparu Gwasanaethau Integredig yn y Rhaglen Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth yn cynnwys cyfeiriad penodol at adroddiad ac argymhellion Archwilio Cymru yn ei amcanion allweddol.
- 1.3. Nod y rhaglen yw sicrhau newid gwirioneddol yn y system, gan fynd i'r afael â'r materion a nodir yn ein Papur Gwyn ar Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth (Ionawr 2021), a sicrhau yn arbennig fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael ei gweithredu yn llawn. Dangosodd adborth yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn fod cryn gefnogaeth i'r egwyddorion a'r fframwaith a nodwyd yn Neddf 2014, ond cafwyd canfyddiad clir bod yna 'fwlch yn y gweithredu' – mater y mae'r rhaglen yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Yn ein barn ni, drwy gyflwyno'r Rhaglen Ail-

gydbwyso yn llwyddiannus, eir i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd y materion a godwyd yn adroddiadau Archwilio Cymru.

Argymhelliad A2

- 1.4. Rhestrodd argymhelliad A2 feysydd penodol y dylid mynd i'r afael â nhw fel rhan o'n rhaglen diwygio polisiau.

Lleihau cymhlethdod y cyfrifoldebau ariannu ar draws partneriaid

- 1.5. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall y trefniadau sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer cyllido iechyd a gofal cymdeithasol fod yn gymhleth.
- 1.6. Yn ddiweddar, rydym wedi adolygu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG, a ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2022. Mae'r Fframwaith yn rhoi pwyslais ar weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol di-dor sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae hefyd yn amlygu pwysigrwydd comisiynu ar y cyd a chyllidebau cyfun i gefnogi dull integredig. O ran Gofal Nyrsio a Ariennir, rydym yn datblygu datganiad polisi interim. Bydd hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau deddfwriaethol a dyfarniadau'r llys yn dilyn Canllawiau Gofal Nyrsio a Ariennir 2004, cyn y cynhelir adolygiad tymor hwy o bolisi Gofal Nyrsio a Ariennir. Mae hwn hefyd yn nodi pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth, comisiynu ar y cyd a chyllidebau cyfun. At hynny, rydym yn bwriadu cynnwys comisiynu gwasanaethau gofal yn unol â threfniadau Gofal Iechyd Parhaus a Gofal Nyrsio a Ariennir o dan y fframwaith comisiynu cenedlaethol yn rhan o'r agenda ar gyfer Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth.
- 1.7. O dan y Rhaglen Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddod â dwy ran y system iechyd a gofal cymdeithasol at ei gilydd i geisio lleihau cymhlethdod a gwneud gwell defnydd o ddulliau comisiynu ar y cyd allweddol megis strategaethau comisiynu ar y cyd, methodolegau ffioedd safonol a chyllidebau cyfun.
- 1.8. Yn amlwg, pe bai gennym gronfa ddiffiniedig a rennir y cytunir arni ar lefel leol, sy'n seiliedig ar safonau ac egwyddorion y cytunwyd arnynt yn rhanbarthol, ni fyddai angen cynnal trafodaeth a chael cytundeb cyllidebol ar gyfer achosion unigol. Yn ei dro, byddai hyn yn symleiddio'r broses i sefydliadau ac i'r bobl y maent yn darparu gofal a chymorth iddynt.
- 1.9. Cyn bo hir, gofynnir i Weinidogion gytuno gapasiti arbenigol yn cael ei roi yn ei le yn 2022/23 i weithio gyda swyddogion a rhanddeiliaid allweddol er mwyn adolygu cymhlethdod presennol y cyllid ar gyfer cartrefi gofal pobl hŷn, a lleihau'r cymhlethdod hwnnw. Bydd casgliadau'r gwaith hwn yn

llywio'r Codau Ymarfer mewn perthynas â'r Fframwaith Cenedlaethol sy'n cael ei sefydlu o dan y Rhaglen Ail-gydbwysu Gofal a Chymorth a'r diwygiadau i ganllawiau statudol Rhan 9.

Disgrifio a chyfleu'n glir sut y disgwylir i gronfeydd cyfun weithredu ar draws partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol

- 1.10. Nodwyd ein disgwyliadau mewn perthynas â'r trefniadau i gyfuno cronfeydd yn y rheoliadau a'r canllawiau statudol ar drefniadau partneriaeth o dan Ran 9 o Ddeddf 2014. Er bod y rheoliadau presennol yn canolbwyntio ar ddatblygu cronfeydd cyfun rhanbarthol ar gyfer gofal preswyl i bobl hŷn, diwygiwyd y codau ymarfer statudol yn 2019 i annog Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ystyried cyfuno cronfeydd ac i gomisiynu ar y cyd mewn meysydd gwasanaeth eraill. Rydym wedi bod yn glir bob amser na ddylid ystyried cyfuno cronfeydd yn nod ar ei ben ei hun – un elfen yn unig o gomisiynu ar y cyd yn effeithiol a darparu gwasanaethau yw hon, ac rydym yn cydnabod bod angen cryfhau'r trefniadau presennol.
- 1.11. Fel ymateb i'r ceisiadau gwreiddiol am ragor o eglurder a chymorth technegol mewn perthynas â chronfeydd cyfun, cafodd Pecyn Cymorth Cronfeydd Cyfun ei gyllido a'i gydgyhyrchu gan Lywodraeth Cymru. Gweithiodd gyda rhanddeiliaid, drwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, i gydgyhyrchu cynnwys y Pecyn Cymorth.
- 1.12. Yn ogystal â hyn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o drefniadau cronfeydd cyfun ledled Cymru. Canfu ein partneriaid ymchwil KMPG rywfaint o gynnydd nodedig, ond daethant i'r casgliad bod angen gwneud rhagor o waith i gryfhau trefniadau llywodraethu, dadansoddi'r manteision a'u gwireddu a rhannu'r risg mewn perthynas â chronfeydd cyfun.
- 1.13. Er gwaetha'r heriau o ran sefydlu cronfeydd cyfun rhanbarthol ar gyfer cartrefi gofal pobl hŷn, mae'r hyn a ddysgwyd hyd yma wedi dangos y gellir defnyddio cronfeydd cyfun mewn amrywiaeth o wahanol feysydd gwasanaeth ac ar amrywiaeth o wahanol lefelau – gan gynnwys lefel genedlaethol, ranbarthol, is-ranbarthol lleol, clwstwr a hyd yn oed ar lefel unigol – a'u bod eisoes yn cael eu defnyddio fel hyn. Bydd cryfhau'r defnydd o gronfeydd cyfun, gan ganiatáu mwy o hyblygrwydd rhwng trefniadau rhanbarthol a lleol, ac ehangu eu cwmpas i feysydd gwasanaeth lle y gallant gael yr effaith fwyaf, yn rhan o'r ffrwd waith ar gyfer darparu gwasanaethau integredig o dan ein Rhaglen Ail-gydbwysu Gofal a Chymorth.

Cymryd camau i fynnu trefniadau craffu cryfach ac atebolrwydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

1.14. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Lywodraethu a Chraffu o dan y Rhaglen Ail-gydbwysu Gofal a Chymorth wedi'i sefydlu i gryfhau trefniadau partneriaeth rhanbarthol drwy adolygu ynghyd â:

- mynd i'r afael â rôl, cyfrifoldebau, swyddogaethau ac aelodaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- sicrhau bod unedau busnes Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael digon o adnoddau a'u bod yn addas i'r diben
- sicrhau bod gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu cyfrif banc eu hunain neu fod ganddynt drefniadau lletya y cytunwyd arnynt
- mynd i'r afael â'r anghydbwysedd o ran atebolrwydd rhwng partneriaid statudol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- ffurfioli'r trefniadau adrodd i/gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer partneriaid statudol
- pennu trefniadau craffu ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gan bartneriaid statudol
- ystyried a fyddai llunio cyd-bwyllgor corfforedig ar gyfer gofal cymdeithasol o gymorth i drefniadau llywodraethu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

1.15. Yn ystod 2022-23, bydd rhanddeiliaid allweddol yn gweithio gyda swyddogion drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried y meysydd uchod a llywio'r newidiadau angenrheidiol i ganllawiau Rhan 9.

Datblygu fframwaith ar gyfer adrodd ar berfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau, sy'n cysylltu ag uchelgais polisiâu a'r saith nod llesiant i Gymru

1.16. Mae gwaith wedi'i wneud ar y cyd ar draws y polisi iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol drafft. Mae'r fframwaith hwn yn un o gamau gweithredu Cymru Iachach sy'n cefnogi ac yn ymgorffori'r ymrwymiad i wella trefniadau gweithio integredig. Ar hyn o bryd, mae'r Fframwaith wedi datblygu 15 o ddangosyddion poblogaeth drafft y cytunwyd arnynt ar y cyd rhwng polisi iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y cynnydd yn erbyn y dangosyddion poblogaeth arfaethedig yn dangos y nod cyffredinol o wella iechyd a llesiant pobl Cymru.

1.17. Dros yr haf, bydd y dangosyddion hyn a'r rhesymau pam y cawsant eu dewis yn cael eu trafod a'u rhannu'n ehangach â rhanddeiliaid. Annog pob partner i gymryd mwy o berchnogaeth a nodi'r camau gweithredu allweddol ar gyfer gwella pob dangosydd yw'r nod wrth feithrin cysylltiadau ehangach â rhanddeiliaid.

1.18. Er mwyn ategu'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae'r

Gronfa Integreiddio Rhanbarthol sydd newydd ei lansio yn cydgynhyrchu fframwaith canlyniadau a chanllawiau atodol â phartneriaid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a monitro'r chwe model gofal cenedlaethol sy'n cael eu hyrwyddo drwy'r gronfa.

- 1.19. Mae fersiynau terfynol Fframwaith Canlyniadau a chanllawiau atodol drafft y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Byddant yn cael eu cyflwyno i gefnogi gwaith monitro ac adrodd ar effaith sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o'r dechrau yn deg. Mae'r canllawiau yn seiliedig ar y fethodoleg Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau, sydd wedi'i hen sefydlu erbyn hyn, ac mae'n cynnwys ystod o ddangosyddion ansoddol a mesurau meintiol ar gyfer pob un o'r chwe Model Gofal cenedlaethol newydd, ynghyd â ffynonellau gwybodaeth i sicrhau y bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru yn gallu mesur cynnydd i fodloni canlyniadau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

2. Diweddariad ar gynnydd y Rhaglen Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth

- 2.1. Sefydlwyd y Rhaglen Ailgydbwyso yn dilyn ymgynghoriad ar y [Papur Gwyn](#) ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth (mis Ionawr 2021), a amlinellodd gynigion ar gyfer gwella gofal cymdeithasol drwy gryfhau dulliau o weithio mewn partneriaeth ac integreiddio gwasanaethau yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cyhoeddwyd yr [ymatebion i'r ymgynghoriad](#) ym mis Mehefin 2021. Mae'r Rhaglen wedi cael ei siapio hefyd gan y [Rhaglen Lywodraethu](#) newydd ar gyfer 2021-2026. Ar 29 Hydref 2021, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig o'r enw 'Y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth – y camau nesaf'.
- 2.2. Mae'r rhaglen bellach yn ei chyfnod cyflawni, ac mae'n canolbwyntio ar y tri maes allweddol canlynol:
 - datblygu Fframwaith Cenedlaethol strategol ar gyfer gofal a chymorth a gomisiynir, i bennu safonau ar gyfer arferion comisiynu, lleihau cymhlethdod a chanolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau
 - creu Swyddfa Genedlaethol i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r fframwaith hwn
 - cryfhau trefniadau partneriaeth rhanbarthol fel bod trefniadau cydweithio yn darparu gwasanaethau integredig ar gyfer poblogaethau lleol

Datblygu Fframwaith Cenedlaethol

- 2.3. Mae'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Cenedlaethol strategol eisoes wedi dechrau. Cafodd Grŵp Technegol ei gynnull ym mis Ionawr i gynghori Llywodraeth Cymru ar yr agweddau technegol ar ddatblygu polisi mewn

perthynas â'r fframwaith. Bydd y Grŵp yn mynd i'r afael â chwmpas y gwasanaethau sydd i'w cynnwys yn y fframwaith, y cylch comisiynu, safonau ar gyfer comisiynu a chynllunio gwasanaethau, methodolegau ffioedd, rheoli contractau / perfformiad, fframweithiau caffael, asesu effaith, a gweithredu'r fframwaith.

- 2.4. Bydd y Grŵp Technegol yn cyfarfod am hanner diwrnod, bob 4 wythnos yn fras. Roedd y cyfarfod cyntaf, ar 26 Ionawr, yn gyfarfod i gyflwyno'r cefndir. Roedd yr ail, ar 30 Mawrth, yn canolbwyntio ar gomisiynu. Disgwylir i'r Grŵp gwblhau ei waith yn yr hydref.
- 2.5. Bydd adroddiad terfynol ar yr argymhellion ar gyfer datblygu polisi yn cael ei lunio gan y Grŵp Technegol a'i gyflwyno i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd yr adroddiad hwn yn llywio'r gwaith o ddatblygu Cod Ymarfer newydd. Cyhoeddir y Fframwaith Cenedlaethol i fod yn destun ymgynghoriad yn 2023, fel y nodir yn y Cod Ymarfer.

Cryfhau trefniadau partneriaethau rhanbarthol

- 2.6. Mae trefniadau partneriaethau rhanbarthol yn cael eu cryfhau drwy fynd i'r afael â phum maes: Ail-gydbwyso'r Farchnad Gofal Cymdeithasol, Darparu Gwasanaethau Integredig, Ymgysylltu a Llais, Cynllunio a Pherfformiad, Llywodraethu a Chraffu. Lansiwyd y rhaglen ranbarthol hon ym mis Chwefror gan Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, gyda digwyddiad ar-lein i feithrin cysylltiadau ag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Mae Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn cael eu sefydlu i oruchwylio'r gwaith o gyflawni pob un o'r ffrydiau gwaith hyn. Bydd y rhan fwyaf yn dechrau ar eu gwaith ym mis Mai.

Ail-gydbwyso'r Farchnad Gofal Cymdeithasol

- 2.7. Nod Grŵp Ail-gydbwyso'r Farchnad Gofal Cymdeithasol yw cryfhau'r sector gofal cymdeithasol drwy greu marchnad fwy sefydlog a chynaliadwy ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir sy'n darparu gofal a chymorth yng Nghymru. Prif amcanion ail-gydbwyso'r farchnad yw:

- ail-gydbwyso'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol drwy gynyddu darpariaeth awdurdodau lleol a'r trydydd sector a lleihau gorddibyniaeth ar y sector preifat mewn rhai agweddau ar ddarpariaeth gofal cymdeithasol
- datblygu dull o ymdrin â sefydlogrwydd y farchnad a goruchwylio'r farchnad sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd ac sy'n ymateb i anghenion poblogaethau lleol sy'n newid
- meithrin capasiti a gallu comisiynu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol

- 2.8. Yn benodol, bydd disgwyl i'r grŵp hwn adolygu adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi ar 1 Mehefin) a nodi negeseuon allweddol ar gyfer adroddiad trosolwg cenedlaethol, goruchwyllo cynnydd o ran datblygu'r Fforymau Gwerth Cymdeithasol rhanbarthol, cyfrannu at ddatblygu fframwaith goruchwyllo'r farchnad newydd, goruchwyllo gwaith i feithrin gallu a darpariaeth gomisiynu rhanbarthol, a chynghori a gwneud argymhellion ynghylch ail-gydbwysu gwasanaethau a reoleiddir ar lefel ranbarthol a lleol. Bydd yn cyfarfod am y tro cyntaf ar 26 Ebrill.

Darparu Gwasanaethau Integredig

- 2.9. Diben y Grŵp Darparu Gwasanaethau Integredig yw parhau â'r cynnydd a wnaed o ran gwireddu uchelgais Llywodraeth Cymru i ddarparu gofal cymdeithasol ac iechyd integredig, ataliol yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod gwasanaethau di-dor ar gael i'r bobl sydd angen gofal a chymorth, ac i'w gofaluwr di-dâl. Bydd hyn yn cynnwys:

- datblygu glasbrint a map llwybr ar gyfer system iechyd a gofal cymdeithasol integredig, di-dor i Gymru
- adolygu a chryfhau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol mewn system integredig
- egluro a chryfhau'r trefniadau ar gyfer cronfeydd cyfun a chomisiynu gwasanaethau integredig ar y cyd, gan ystyried argymhellion adroddiad Archwilio Cymru 2021

Ymgysylltu a Llais

- 2.10. Mae gwaith y Grŵp Ymgysylltu a Llais eisoes wedi dechrau, a bydd yn cael ei gyflwyno mewn dau gam. Mae Cam 1, sydd ar fin ei gwblhau, wedi canolbwyntio ar rôl cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau, gofaluwr di-dâl, y trydydd sector a darparwyr ar fyrddau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae hyn yn dilyn pryderon, a godwyd gan gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofaluwr yn arbennig, nad oedd y rolau hyn wedi'u diffinio yn glir, ac nad oedd yr aelodau hyn o'r bwrdd yn cael eu cefnogi yn briodol na'u galluogi i chwarae rhan lawn yn nhrafodaethau'r bwrdd. Mae'r Grŵp wedi llunio Siarter ddrafft, canllawiau ar gyfer Cadeiryddion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a disgrifiadau rôl cyffredin, y disgwylw'n y bydd pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn eu mabwysiadu. Bydd y Grŵp yn cael ei ailgorffori ar gyfer Cam 2, a fydd yn dechrau ym mis Mai. Bydd yn datblygu rhaglen waith ehangach i gryfhau mecanweithiau ymgysylltu a llais mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac yn goruchwyllo'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen waith honno. Mae hyn yn cynnwys cryfhau cysylltiadau â dinasyddion (defnyddwyr gwasanaethau a gofaluwr di-dâl), y trydydd sector a grwpiau cymunedol, a (phan fo'n briodol)

darparwyr gofal a chymorth. Bydd y Grŵp hefyd yn ystyried y ffordd orau o ymwreiddio arferion cydgynhyrchu ar draws pob agwedd ar waith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a'r berthynas rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Corff Llais y Dinesydd newydd.

Cynllunio a Pherfformiad

- 2.11. Amcanion y Grŵp Cynllunio a Pherfformiad yw cryfhau trefniadau partneriaethau rhanbarthol mewn perthynas â pherfformiad a chynllunio. Bydd y Grŵp yn mynd i'r afael ag atebolrwydd, swyddogaethau a rhaglenni strategol penodol, gan gynnwys asesiadau o anghenion y boblogaeth, offeryn hunanasesu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, trefniadau adrodd ar berfformiad, a gweithio tuag at ddatblygu un fframwaith cynllunio integredig i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau sy'n cyd-fynd â threfniadau cynllunio iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Llywodraethu a Chraffu

- 2.12. Er mwyn gwireddu trefniadau partneriaeth rhanbarthol cryfach, bydd y Grŵp Llywodraethu a Chraffu yn mynd i'r afael â rôl, cyfrifoldeb, swyddogaeth ac aelodaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (gan gynnwys strwythur unedau busnes y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a threfniadau cyfrifon banc), yn ogystal â'r trefniadau atebolrwydd ac adrodd rhwng partneriaid statudol a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.
- 2.13. Bydd gwaith y pum Grŵp Gorchwyl a Gorffen hyn yn cyfrannu at ddiwygio'r Canllawiau Statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth, yr ymgynghorir arnynt ar yr un pryd â'r Cod Ymarfer newydd ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth.
- 2.14. Rydym wedi ymrwymo o hyd i feithrin cysylltiadau a chydgyhyrchu â'r sector a dinasyddion. Bydd partneriaid allweddol yn aelodau o'r Grwpiau Technegol a'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, ac rydym hefyd yn bwriadu ennyn diddordeb yn ehangach drwy rannu gwybodaeth am raglenni a fydd yn rhoi'r diweddaraf am y camau cyflawni allweddol.